**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHURTON, Y RHYL LL18 3DP, Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2018 am 2.30 pm.

**YN BRESENNOL**

Bethan Jones, (Cadeirydd) - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Cynghorydd Gareth Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Hugh Evans - Cyngor Sir Ddinbych
Dr Evan Moore - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Iwan Davies – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Judith Greenhalgh – Cyngor Sir Ddinbych
Sian Williams – Cyfoeth Naturiol Cymru
Teresa Owen – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Helen Wilkinson – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Yr Uwcharolygydd Siân Beck – Heddlu Gogledd Cymru
Sioned Rees – Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
Wendy Jones – Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Shân Morris – Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)

**SWYDDOGION**

Hannah Edwards - Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (CBS Conwy)
Nicola Kneale – Rheolwr Cynllunio Strategol (Cyngor Sir Ddinbych)
Fran Lewis - Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBS Conwy)
Megan Vickery – Swyddog Ymgysylltu (BIPBC Canolog)
Steve Price – Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Sir Ddinbych)
Stephanie Jones – Gweinyddwr Pwyllgorau (Cyngor Sir Ddinbych)

**ARSYLWYR**

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Cyngor Sir Ddinbych)
Bethan Beech (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estyn croeso arbennig i Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr Sir Ddinbych i'w chyfarfod cyntaf o Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

**1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Andy Jones - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Gary Doherty - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Simon Smith – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Stephen Hughes – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

## 2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2018.

**Materion yn codi -**

Tudalen 5 – Presenoldeb –Roedd Teresa Owen yn bresennol yn y cyfarfod yn rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Tudalen 9 – Y berthynas rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – Cadarnhaodd y Cadeirydd fod eitem ar y rhaglen wedi ei nodi i’w drafod yn fanwl yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2018 fel cofnod cywir.*

## 3 MATERION YN CODI

### (a) Cynulliad Cymru – ymchwiliad Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyflwynwyd yr ymateb gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (a gylchredwyd yn flaenorol) i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cyfarfod wedi ei gynnal i drafod y materion a godwyd. Roedd cynrychiolwyr niferus o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus amrywiol wedi bod yn bresennol. Gofynnwyd i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus archwilio elfennau allweddol pob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus gan gynnwys yr adnoddau ar gael, cynaliadwyedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cymhlethdod yn ymwneud â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddai canfyddiadau’r cwestiynau hyn a ofynnwyd yn cael eu bwydo’n ôl.

### (b) Llywodraethu Mewn Partneriaeth rhaglen ACE

Cafodd gwybodaeth gefndir ar y rhaglen ACE ei darparu yn ogystal â’r cynigion o ran llywodraethu mewn partneriaeth ar gyfer y rhaglen. Un o’r cynigion oedd i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lywodraethu’r rhaglen ranbarthol. Fodd bynnag mewn cyfarfod o Brif Swyddogion Gweithredol Traws Sector yn ddiweddar gofynnwyd am edrych ar opsiynau pellach ar gyfer trefniadau llywodraethu rhanbarthol, gan gynnwys y Grŵp Trawsnewid Plant a'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, yn ogystal â bod gan y Grŵp o Brif Swyddogion Gweithredol Traws Sector ei hun rôl. Roedd yna gydnabyddiaeth nad oedd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y mecanwaith mwyaf addas i lywodraethu’r rhaglen hon yn rhanbarthol.

***PENDERFYNWYD*** *fod aelodau’n derbyn ac yn nodi’r diweddariad.*

## 4 GWASANAETH GWIRFODDOL - CONWY A SIR DDINBYCH – CEFNOGI YMRYMUSO'R GYMUNED

Rhoddodd Wendy Jones o Gefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy, gyflwyniad power point ar gefnogi ymrymuso’r gymuned.

Cynghorwyd aelodau ar rôl Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy a’r gwasanaethau a ddarparwyd. Rhoddwyd manylion hefyd yn ymwneud â’r cyllid a gâi'r elusen gofrestredig gan Lywodraeth Cymru a chyllid oedd yn cynnwys cefnogaeth gan wasanaethau trydydd sector. Roedd anogaeth ac arweiniad yn allweddol i’r gwaith a wnaed gan y gwasanaeth.

O’r cyflwyniad sefydlwyd fod rhaglen hyfforddi wedi ei llunio i annog datblygiad unigolion a rhannu profiad a gwybodaeth. Roedd cefnogaeth wedi’i rhoi i ddysgwyr i roi’r grym iddynt i ymgymryd â dysgu a chefnogi unigolion eraill. Roedd cydweithio wedi digwydd gyda Llandrillo gyda chyfradd basio ragorol.

Roedd gwybodaeth a chyngor wedi ei roi yn ymwneud â chyllid gyda chymorthfeydd wedi eu cynnal i annog prosiectau a ffynonellau posib o gyllid i gwrdd a darparu adborth. Roedd nifer fawr o gynigion prosiect wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn cyllid. Roedd y cymorthfeydd wedi eu croesawu gan wirfoddolwyr a sefydliadau. Hefyd cadarnhawyd y bydd porth canfod grant newydd yn cael ei lansio'n ddiweddarach eleni.

Rhannwyd gydag aelodau fod cynrychiolwyr o Gefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy yn eistedd ar dros 70 o fyrddau a grwpiau gwahanol i rannu eu harferion a chynnig cefnogaeth. Ar adegau roedd hyn wedi creu problemau gan fod cyfarfodydd wedi cyd-daro. Yn gyffredinol roedd y gwaith a gwblhawyd gan Gefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy wedi bod yn gadarnhaol.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd o Gefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy am ei chyflwyniad manwl i aelodau. Mynegodd bryder am y nifer o gyfarfodydd mae’n rhaid iddynt fynychu, gan ofyn a oedd yna unrhyw gefnogaeth y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei gynnig. Wrth ymateb i’r Cadeirydd, cadarnhaodd Wendy Jones mai’r prif fater oedd cefnogi a rhoi adnoddau i waith partneriaeth. I leddfu’r pwysau, adnoddau a chyllid ychwanegol ar gyfer mwy o amser swyddog fyddai'r gefnogaeth fwyaf cadarnhaol. O ganlyniad i'r cyfanswm o wahoddiadau cyfarfod a dderbyniwyd roedd rhaid i gynrychiolwyr wrthod presenoldeb er mwyn blaenoriaethu gwaith.

Cyflwynodd Helen Wilkinson, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, y gwaith a wnaed gan y sefydliad. Hysbyswyd aelodau o’r newidiadau diweddar i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych gan gynnwys strwythur tîm newydd, logo newydd a gwefan wedi'i diweddaru a lansiwyd yn 2018. Y flaenoriaeth i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych oedd i ddarparu cefnogaeth ragorol a gwybodaeth i wirfoddolwyr. Y gobaith oedd y byddai gwell sylw yn y cyfryngau cymdeithasol yn arwain at ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Eglurwyd fod Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych fel Conwy yn wasanaeth cefnogi 3ydd sector a oedd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru a threfniadau partneriaeth.

Sylwyd fod nifer o newidiadau wedi digwydd o fewn Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, gyda'r tîm, yn dysgu a datblygu'r gwasanaeth yn barhaus i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol i sefydliadau a gwirfoddolwyr. Roedd ymgysylltu wedi ei sefydlu a hyrwyddo'r gwasanaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych am y cyflwyniad ac roedd yn falch o weld fod gwaith wedi datblygu mewn dull cadarnhaol. Roedd angen gwaith agos gyda chynghorau Gwirfoddol Conwy a Sir Ddinbych a’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi a hyrwyddo’r gwasanaeth drwy sefydliadau eraill. Byddai o fudd archwilio strwythur y broses wirfoddol a sut y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gefnogi.
Gofynnodd y Cadeirydd i’r cynrychiolwyr sut y teimlent y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynorthwyo a chefnogi'r gwasanaeth gwirfoddol. Pe baent yn gallu trafod gyda’i gilydd a dod ag adroddiad i'r cyfarfod nesaf er mwyn i'r aelodau ei drafod ac ymdrin â materion a phryderon.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi’r cyflwyniadau a’r wybodaeth. Cyflwyno adroddiad diweddaru fel y gofynnir amdano uchod i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi.*

## 5 DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y BLAENORIAETHAU

Darparwyd diweddariad ar gynnydd y blaenoriaethau fel a ganlyn –

### (a) Pobl – Lles Meddyliol

Hysbysodd Siân Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru, y pwyllgor fod yr Is-Grŵp wedi cyfarfod yn ddiweddar. Yn y cyfarfod cytunwyd fod gan Ogledd Cymru strategaeth iechyd meddwl sefydledig mewn grym. Byddai’r strategaeth hon yn ffurfio’r sylfaen ar gyfer yr Is-Grŵp i ganiatáu trafodaethau ar ba ddarpariaeth y gallai’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei gynnig i’r strategaeth iechyd meddwl. Roedd yr Is-Grŵp wedi dechrau trefnu gweithdy oedd i’w gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn, i drafod y strategaeth. Cadarnhawyd y rhoddir diweddariad yn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd aelodau ar i gofnodion yr Is-Grŵp diweddar gael eu cylchredeg wedi iddynt gael eu cwblhau.

### (b) Cymuned – Grym Cymunedol

Dywedodd Judith Greenhalgh, Cyngor Sir Ddinbych fod gweithdy wedi ei drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol. Roedd y Rheolwr Cynllunio strategol a'i thîm wedi trefnu’r cyfarfod i drafod blaenoriaethau a strategaethau’r Is-Grŵp. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i bwyllgor y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym Medi i ddiweddaru aelodau ar ganlyniad y gweithdy.

### (c) Lle – Gwydnwch Amgylcheddol

Cafwyd cadarnhad gan Teresa Owen, Iechyd Cyhoeddus BIPBC, fod gweithdy wedi ei drefnu ar gyfer 18 Gorffennaf i ddatblygu cynllun gweithredu manwl ar gyfer

y flaenoriaeth. Bydd y gweithdy yn canolbwyntio ar ddatrysiadau ar y cyd a'r camau nesaf yn ymwneud â'r meysydd hyn -

- Datganiad Datblygu Polisi Amgylcheddol Cyffredin
- Datblygu Camau Gweithredu ar gyfer Gwydnwch Amgylcheddol yng Nghonwy a Sir Ddinbych
- Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel dylanwadwr

Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i bwyllgor y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym Medi i ddiweddaru aelodau ar ganlyniad y gweithdy.

***PENDERFYNWYD*** *nodi cynnydd y blaenoriaethau a rhoi diweddariad pellach ar gyfer cyfarfod mis Medi.*

**6 TREFNIADAU CRAFFU DGC – DIWEDDARIAD AR GYNIGION**

Cyflwynwyd adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn rhoi i aelodau ymateb yr awdurdodau lleol i'r cynnig i sefydlu Pwyllgor Craffu ar y cyd, ac i'r cylch gorchwyl drafft.

Arweiniodd Steve Price, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych, aelodau drwy'r adroddiad, gan ddarparu trosolwg o'r gwaith oedd wedi ei wneud hyd yma i aelodau. Cadarnhaodd mai'r trefniant a ffafriwyd gan yr aelodau yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym Medi 2017 oedd i ddatblygu cydbwyllgor craffu ffurfiol a gofynnodd am gael safbwyntiau pwyllgor dynodedig yr awdurdodau. Roedd yr adroddiad wedi cynnwys yr ymateb gan y ddau awdurdod lleol i'r cais.

Roedd y cynnig wedi'i gyflwyno i'r ddau awdurdod gyda Rheolau a Gweithdrefnau y Cylch Gorchwyl drafft (atodiad 2) ar gyfer sylwadau. Rhoddwyd cadarnhad fod grwpiau cydlynu craffu y ddau awdurdod wedi derbyn yr adroddiad a hyd yma wedi cytuno i'r cynigion mewn egwyddor. Byddai adroddiad ac atodiadau'r cynnig yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu dynodedig y ddau awdurdod i'w hystyried yn ystod haf 2018. Yn dilyn hynny bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer ei gymeradwyo cyn mynd i'r Cyngor llawn ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol fis Hydref eleni.

Awgrymodd Sioned Rees, Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru, y dylid cynnwys y '5 ffordd o weithio' yn y Cylch Gorchwyl drafft. Cadarnhawyd fod yr atodiadau oedd wedi eu cynnwys ar ffurf drafft a chroesawyd cynnwys neu hepgor gwaith ar gyfer trafodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd yn rhan o'r cyfathrebu rhwng awdurdodau a chroesawodd y cynnig am graffu ar y cyd i herio gwaith Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

***PENDERFYNWYD*** *yn ddibynnol ar sylwadau aelodau, y byddai'r adroddiad ar drefniadau Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu derbyn a'u nodi.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD,*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail ei fod yn cynnwys y posibilrwydd o orfod datgelu gwybodaeth eithriedig*

**7 BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL**

[Cytunodd y Cadeirydd ar y pwynt hwn i gyfuno eitem rhif 7 ac 8 yn y rhaglen i'w trafod fel un eitem ar y rhaglen]

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad cyfrinachol, gan egluro i aelodau fod yr adroddiad wedi bod i gyfarfod blaenorol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Trafododd aelodau bwysigrwydd cydweithio i sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu gan y cyrff niferus ar draws awdurdodau. Mae partneriaethau niferus yn gweithio'n lleol i gwblhau tasgau a swyddogaethau, roedd angen mabwysiadu ymagwedd o gydlynu i symleiddio partneriaethau.

Mae angen i drefniadau rhanbarthol a threfniadau lleol edrych ar y dull mwyaf effeithiol o weithio mewn partneriaeth. Roedd yr ymateb a ddarparwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol yn angenrheidiol i nodi barn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunwyd fod angen arweinyddiaeth gref a rhaglen gadarn oedd yn trafod yr anghenion a nodwyd. Cefnogodd aelodau well cysylltiadau i weithio ar y cyd, ond o ystyried y ddeddfwriaeth wahanol sy'n llywodraethu gwaith y ddau Fwrdd ni fyddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu diwallu ei rwymedigaethau statudol pe bai'n gweithio i'r egwyddor fel y'i cynigir. Ystyriwyd fod cyfathrebu yn hanfodol rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i drafod materion a chasgliadau.

Awgrymwyd mai'r Bwrdd Gwasanaethau Integredig fyddai'r fecanwaith fwyaf addas i gefnogi darparu'r Bwrdd Rhan 9 yn lleol.

Nododd y Cadeirydd fod angen cyfathrebu pellach gyda'r ddau Brif Weithredwr a chynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Gwirfoddol i drafod sut i symud ymlaen mwn dull lle byddai pawb yn elwa, gan barhau i gwrdd â'r holl rwymedigaethau gofynnol.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cadeirydd yn cyfathrebu gyda Phrif Weithredwr Conwy a Sir Ddinbych yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Gwirfoddol o bob awdurdod i drafod trafodaethau pellach yn ymwneud â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a dod ag adroddiad diweddaru i aelodau yn hwyrach yn y flwyddyn.*

**8 STRWYTHURAU PARTNERIAETHAU LLEOL YNG NGHONWY A SIR DDINBYCH**

Arweiniodd y Cadeirydd aelodau drwy'r adroddiad Strwythur Partneriaeth Lleol (a gylchredwyd yn gynharach). Roedd gan yr wybodaeth a ddarparwyd gysylltiadau cryf â'r rhaglen flaenorol ac roedd yn tanlinellu cymhlethdod y sefydliadau partner niferus sy'n gweithio ar draws yr awdurdodau lleol. Trafodwyd dyblygu gwaith,

ffrydio gwaith i alluogi awdurdodau i gydweithio gyda'i gilydd a rhannu'r arfer gorau. Ceisiwyd eglurder pellach i wahaniaethu cyfrifoldeb.

***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Ar y pwynt hwn (16.25 p.m.) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 16.35 p.m.

## 9 CYFLEOEDD CYLLIDO

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad cyfrinachol (a gylchredwyd yn flaenorol) ar y ffynonellau cyllid sydd ar gael i Wasanaethau Cyhoeddus. Gofynnodd i'r cynrychiolwyr gymryd amser i ddarllen yr adroddiad yn drylwyr.

Teimlai'r Cadeirydd y byddai ymgynghoriadau pellach gydag aelodau Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwneud â dyraniad cyllid craidd y llywodraeth yn hybu blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus unigol. Teimlwyd y byddai trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r cyfyngiadau a wynebir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fudd. Trafododd aelodau'r pwysigrwydd o asesu anghenion yn unol â dyrannu cyllid.

Pwysleisiodd Judith Greenhalgh, Cyngor Sir Ddinbych bwysigrwydd dyrannu arian. Gall cronfeydd yn aml gael eu neilltuo ar gyfer gwasanaethau penodol, gydag arian eisoes wedi eu gosod mewn gwaith cyfredol.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr adroddiad cyfrinachol yn cael ei nodi a thrafodaeth yn cael ei sefydlu gyda Llywodraeth Cymru ar y cyfyngiadau mewn grym yn ymwneud â dyrannu cyllid.*

## 10 RISGIAU ARWEINYDDIAETH, HERIAU A CHYFLEOEDD

Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth gyfrinachol i ganiatáu aelodau i rannu materion neu bwysau yr oeddent wedi'u profi. Rhoddwyd y cyfle i rannu arfer gorau a chefnogaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Hysbysodd Sian Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr aelodau fod Prif Weithredwr newydd wedi ei benodi a'u bod wedi dangos barn gadarnhaol tuag at weithio mewn partneriaeth.

Roedd cyflwyno deddfwriaeth newydd wedi creu llwyth gwaith ychwanegol yn ogystal â darparu datganiadau ardal. Roedd gwaith wedi dechrau i gwblhau'r holl asesiadau gofynnol. Y bwriad, wedi cwblhau'r asesiadau oedd rhannu'r canfyddiadau rhwng gwasanaethau. Eglurwyd i aelodau gan ei bod yn parhau yn gyfnod cynnar, nad oedd unrhyw ddeilliannau wedi eu harchwilio. Nododd Sian Williams y byddai'n diweddaru'r pwyllgor unwaith y byddai'r deilliannau wedi'u derbyn.

Cytunodd Sioned Rees, Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru, fod rhannu gwybodaeth ac adnoddau'n werthfawr. Byddai rhannu gwersi a ddysgwyd yn atal dyblygu ac yn rhoi grym i wasanaethau. Byddai secondiadau rhwng gwasanaethau o fudd, nodwyd cydleoli a rhannu desgiau fel dulliau eraill o wella gwybodaeth ar draws sefydliadau. Gofynnodd y Cadeirydd am gyflwyno cynigion o secondiadau a gweithdai / hyfforddiant yn y maes hwn yng nghyfarfod nesaf yr arweinyddiaeth.

Pwysleisiodd Iwan Davies, CBSC, yr her bosibl yn nyfodol addysg Arbenigol. Roedd cyfathrebu rhwng cyfleustodau a gwasanaethau wedi profi'n anodd gan nad oedd cysylltiadau arweiniol yn y maes. Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfathrebu unrhyw botensial o ran cyfleoedd cyswllt a rhannu gwybodaeth gyswllt gyda'i gilydd.

Trafododd yr aelodau y bwrdd iechyd. Cytunwyd fod gwella canfyddiad y cyhoedd yn hanfodol i sicrhau ymgysylltu cadarnhaol gyda'i ddefnyddwyr. Roedd gwaith wedi'i wneud i wella'r gwasanaeth a ddarparwyd. Roedd yn bwysig i wneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r gweithio cadarnhaol oedd wedi digwydd gan gynnwys gwaith i adrannau.

Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth gefndir i'r rhesymau y tu ôl i gau'r cyfleusterau i fyny'r grisiau yn Inffyrmari Dinbych. Cadarnhaodd fod cyfathrebu'n parhau o ran dyfodol y sefydliad. Byddai diweddariadau'n cael eu darparu i'r pwyllgor yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod -*

*(a) y diweddariad ar lafar o'r risgiau, heriau a chyfleoedd yn cael eu derbyn a'u nodi;*

*(b) diweddariad yn cael ei ddarparu i'r bwrdd gan Sian Williams yn dilyn canlyniadau'r datganiadau ardal;*

*(c) secondiadau a dysgu ar y cyd yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf yr arweinyddiaeth;*

*(d) aelodau yn cyfathrebu unrhyw wybodaeth gyswllt rhwng gwasanaethau; a*

*(e) diweddariad ar Inffyrmari Dinbych yn cael ei ddarparu unwaith roedd yr ymgynghoriad wedi ei gwblhau.*

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (a gylchredwyd eisoes) i'w hystyried. Cadarnhaodd aelodau y rhaglen ac adroddiadau a ddisgwyliwyd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym Medi 2018.

- Adroddiad diweddaru gan Wasanaeth Gwirfoddol Conwy a Sir Ddinbych - Sut all y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynorthwyo a chefnogi
- Diweddaru'r blaenoriaethau
- Gosod blaenoriaethau / gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sefydliadau sy'n aelodau
- Adolygu aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Diweddariad ar Gynnig Twf Gogledd Cymru
- Dilyn rhaglen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhaglen.*

**12 UNRHYW FUSNES ARALL**

Dim

Daeth y Cyfarfod i ben am 17:10 p.m.